Ta

RPW
Ar-Lein
Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllawiau i Gwsmeriaid ar gwblhau'r ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer



## Beth yw'r ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer?

- Pan wnaethoch gofrestru yn y gorffennol, os oeddech wedi dewis rwy'n dymuno "rwyf am reoli fy CPH neu gofrestru fy ngwybodaeth i yn unig" ond eich bod am newid hwn i "Rwy'n bwriadu gwneud cais neu hawlio a rheoli fy CPH" bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar Taliadau Gwledig Cymru. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i'w chael ar y ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer

- Er mwyn gwneud hawliadau, bydd angen rhagor o wybodaeth fusnes a bydd angen i Taliadau Gwledig Cymru gynnal gwiriadau data ychwanegol. Unwaith yr ydych wedi cyflwyno y ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer, bydd Taliadau Gwledig Cymru angen copi caled hefyd o'r ffurflen BACS. Mae dolen at ffurflen BACS i'w chael ar-lein pan fyddwch yn logio ymlaen i'ch cyfrif RPW Ar-lein, a fyddech cystal a'i hargraffu, ei llenwi a'i phostio at y cyfeiriad llawn (Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA).

- Bydd RPW Ar-lein yn gofyn ichi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Wrth ddechrau'r ffurflen, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein. Cewch adael y broses unrhyw bryd. Os ydych yn gadael y ffurflen, cewch ddod yn ôl yn hwyrach i lenwi'r gweddill. Bydd RPW ar-lein wedi arbed yr wybodaeth a gyflwynwyd gennych yn eich sesiwn flaenorol

- Ni fydd y ffurflen yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru tan ichi glicio'r opsiwn 'Cyflwyno' ar ddiwedd y broses. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch ffurflen, ni fyddwch yn cael gwneud newidiadau iddi drwy RPW Ar-lein.

- Unwaith y bydd y data wedi ei wirio, byddwch yn cael eich hysbysu bod eich statws fel Cwsmer wedi ei gadarnhau.

- Tra eich bod yn aros am gadarnhad i'r newidiadau, cewch barhau i ddefnyddio RPW Ar-lein fel o'r blaen.

Pan fyddwch yn logio ymlaen ar eich cyfrif RPW Ar-lein, dylech glicio ar Ffurflenni




Dewis Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer –



Cliciwch "Dechrau" i fynd yn eich blaen.  Bydd y dudalen nesaf yn rhoi negeseuon pwysig ichi cyn ichi fwrw ymlaen i gofrestru.




Darllenwch yr wybodaeth bwysig ar y sgrin hon a chlicio 'Nesaf' pan yn barod i fynd ymlaen i'r sgrin nesaf.



## Manylion Cyffredinol

Bydd angen ichi gadarnhau bod yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ar eich cyfer yn gywir, a'i diwygio os oes angen, yna glicio i Nesaf i barhau i'r sgrin nesaf. Mae meysydd gorfodol wedi'u nodi â seren goch.



## Manylion Gohebu

Bydd angen ichi gadarnhau bod yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn gywir ac i'w diwygio fel y bo angen. Cliciwch Nesaf i barhau i'r sgrin nesaf. Mae meysydd gorfodol wedi'u nodi â seren goch.



## Prif Gyswllt

Bydd angen ichi gadarnhau bod yr wybodaeth sydd gennym ar gyfer eich Prif Gyswllt ar hyn o bryd yn gywir a'i diwygio fel y bo angen. Dyma'r person y dylwn siarad ag ef/hi os oes ymholiadau. Cliciwch Nesaf i barhau i'r sgrin nesaf. Mae meysydd gorfodol wedi'u nodi â seren goch.






## Unigolion Eraill

Yn yr adran hon, gallwch ychwanegu unigolion sydd â rheolaeth sylweddol dros y busnes. I ychwanegu unigolyn, cliciwch ar y botwm "Ychwanegu Unigolyn". Os nad ydych chi am safio'r unigolyn, gallwch glicio'r botwm "Canslo". Gallwch safio'r wybodaeth trwy glicio ar "Safio’. Gallwch safio'r wybodaeth a mynd yn ôl i adran Unigolion Eraill y ffurflen trwy glicio ar "Cadw a Dychwelyd’. Os ydych yn dymuno ychwanegu Unigolyn arall, cliciwch ar 'Arbed ac Ychwanegu Rhywun Arall’.  Cliciwch Nesaf i barhau i'r sgrin nesaf. Mae meysydd gorfodol wedi'u nodi â seren goch.






# Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Dylech edrych eto ar y grynodeb hon ac os nad oes Negeseuon Gwybodaeth i'w gweld, cliciwch Nesaf i barhau i'r sgrin nesaf.






## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Darllenwch yr adran Datganiadau ac Ymrwymiadau cyn Clicio ar y blwch a pharhau i'r dudalen Nesaf




## Cyflwyno

Cliciwch ar y botwm Cyflwyno i anfon eich ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer.



## Cadarnhad eich bod wedi cyflwyno’r cais

Cadarnhad yw hyn bod ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer wedi ei chyflwyno. Dylech naill ai glicio Printio'r Sgrin hon neu ddewis Gadael




Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich ffurflen Manylion Cofrestru Ychwanegol y Cwsmer wedi ei derbyn gan Taliadau Gwledig Cymru ar eich Tudalen Hafan.

